**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/FM/3273/13

David Melding AM
Cadeirydd, Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

8fed Hydref 2013

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Awst yn codi pwyntiau pellach yn dilyn fy ymddangosiad o flaen y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar y 19 Gorffennaf yn Theatr y Stiwt, Rhosllanerchrugog.

Mae fy ymateb i argymhellion pellach y Pwyllgor wedi ei atodi.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 060 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 060 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

**YMATEB Y PRIF WEINIDOG I ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR CRAFFU AR WAITH Y PRIF WEINIDOG: PROSIECTAU SEILWAITH MAWR YNG NGOGLEDD CYMRU**

**HYDREF 2013**

---

Mae buddsoddi mewn seilwaith yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor bod cydweithredu'n hollbwysig er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd buddsoddi mewn seilwaith, ac rydym yn parhau i hyrwyddo cydweithredu trwy Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP).

**Argymhelliad 1:**
**Hoffem ichi egluro sut y bydd yr holl gynlluniau a strategaethau hyn gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu'n gydlynol ac yn effeithiol ledled Cymru ac ar draws portffolios y Gweinidogion. Efallai y gallech gyflwyno hyn ar ffurf diagram fel y gallwn weld sut y maent oll yn cyd-fynd â'i gilydd.**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n disgrifio'r canlyniadau y mae'r Llywodraeth hon yn ceisio eu cyflawni: pobl iach sy'n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar; cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb; amgylchedd glân gyda defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol a chymdeithas â gwir ymdeimlad â'i diwylliant a'i hanes. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel yr egwyddor drefniadol ganolog sy'n sail i waith y Llywodraeth hon.

Er mwyn gwneud cynnydd tuag at y canlyniadau hyn, datblygir polisi'r Llywodraeth ar draws ac o fewn portffolios y Gweinidogion unigol.

Mae polisïau cenedlaethol strategol (megis Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru) yn darparu'r safbwynt trawsbynciol sy'n llywio orau polisïau a mentrau penodol i sector, gyda deddfwriaeth (megis deddfau cynllunio Cymru a'r DU) yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol yn effeithiol a'r cyd-destun cyfreithiol y mae'n rhaid i'r gwaith o lunio a chyflwyno polisïau gydymffurfio ag ef (a fydd yn cael effaith ar gwmpas mentrau a sut y'u rhoddir ar waith).

Datblygir polisïau ym mhortffolios y Gweinidogion yng nghyd-destun y Rhaglen Lywodraethu a thrwy ddefnyddio'r polisïau cyffredinol hyn fel Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae hyn yn golygu bod modd creu cynlluniau cyflawni sectoraidd cadarn sy'n diwallu anghenion pobl Cymru. Yn ogystal, mae'r broses hon wedi llwyddo i gynyddu ffocws ein hadnoddau prin, gan dargedu'r ymyriadau

hynny a fydd yn esgor ar y manteision economaidd a chymdeithasol cenedlaethol mwyaf. Ar ôl nodi ymyriadau o'r fath, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid cyhoeddus a phreifat ledled Cymru i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r holl gyllid sydd ar gael, gan gynnwys Arian Ewropeaidd newydd posibl.

Yn Atodiad 1, mae ffigur 1 yn dangos sut y gellir ystyried y polisïau strategol hyn fel cyfres o gamau neu hidlyddion sy'n llywio prosiectau a rhaglenni gwario Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2:**
**Hoffem wybod sut rydych yn cynnig datblygu meddylfryd a dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod cymunedau lleol yn cael buddion uniongyrchol o bob math o ddatblygiad seilwaith mawr, p'un a yw wedi'i leoli yn eu hardaloedd neu'n effeithio arnynt.**

Mae darparu budd i'r gymuned trwy fuddsoddi trwy gaffael cyhoeddus yn ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu, ac mae'n rhan o Ddatganiad Polisi Caffael Cymru, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ym mis Rhagfyr 2012 (Egwyddor 4).

Mae'r dull arloesol hwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd hyfforddiant a swyddi lleol ac yn gwneud y defnydd gorau o gadwyni cyflenwi lleol.

Mae polisi caffael Budd i'r Gymuned Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i ddefnyddio mewn mwy nag 80 o brosiectau gwerth dros £4 biliwn.

Yn 2012, sefydlodd y Gweinidog Cyllid Grŵp Gorchwyl a Gorffen, sy'n cael ei gadeirio gan Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur (TUC), fel unigolyn yn hytrach nag fel cynrychiolydd TUC, i archwilio cyfleoedd i gryfhau'r polisi a'r gwaith o'i weithredu.

Mae'r dull wedi'i gynnwys yn y compact Llywodraeth Leol ac mae'n dod yn rhan annatod o brosiectau yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar draws sectorau sy'n cynnwys gwastraff, addysg ac iechyd. Mae hyfforddiant Budd i'r Gymuned wedi'i ddarparu i dros 260 o staff, gan gynnwys rheolwyr cyllid a grantiau Llywodraeth Cymru a swyddogion o 30 o sefydliadau'r sector cyhoeddus.

**Argymhelliad 3:**
**Nid oeddem yn sicr a oeddech yn datgan eich bod yn cefnogi'r cynnig ynghylch cael cysylltiad cebl ar waelod y môr rhwng gogledd a gorllewin Cymru, ac felly hoffem ichi egluro eich safbwynt o ran y cynnig hwn.**

Mae gwahanol opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer seilwaith grid yn y Gogledd, gyda'r defnydd o gysylltiad cebl ar waelod y môr yn un ohonynt.

Gall y cynnig ynghylch cael cysylltiad cebl ar waelod y môr gyflwyno manteision o ran gwneud gwell defnydd o'n seilwaith grid presennol a sicrhau mwy o hyblygrwydd o ran defnydd a datblygu'r capasiti cynhyrchu. Fodd bynnag, bydd asesiad llawn a thrylwyr o effeithiau posibl yn cael ei gynnal, yn enwedig mewn perthynas â'r amgylchedd.

**Argymhelliad 4:**
**Byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro safbwynt Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â datblygu gorsafoedd pŵer newydd yng Nghymru a gaiff eu pweru gan nwy.**

Fel y nodir yn nogfen 'Ynni Cymru' Llywodraeth Cymru, mae nwy yn ffynhonnell ynni hyblyg, ymatebol a dibynadwy sy'n gallu gwneud cyfraniad allweddol wrth bontio i system ynni carbon isel.

Credwn fod gennym gyfraniad allweddol i'w wneud o ran helpu i hwyluso cyfnod pontio mor effeithlon â phosibl, a sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd sylweddol sydd ar gael i Gymru. Rydym wedi ymrwymo i gryfhau ymhellach ein partneriaethau gyda busnesau a buddsoddwyr i sicrhau bod datblygiadau ynni priodol yn llwyddo'n fasnachol ac yn cynnal economi Cymru.

**Argymhelliad 5:**
**Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynllun rheilffordd Wrecsam i Gyffordd Saltney i bobl sy'n byw yng ngogledd Cymru, a hoffem weld Llywodraeth Cymru yn dangos arweinyddiaeth, ac eglurder o ran ei diben, wrth fwrw ymlaen â'r cynllun hwn cyn gynted â phosibl.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau'r gwerth gorau am arian a chynyddu effaith y buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Yn dilyn adolygiad, fe gyhoeddodd y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth ar y 3ydd o Hydref fod cytundeb wedi ei gyrraedd gyda Network Rail ar gynllun diwygiedig gwerth £44m i wella amseroedd teithio rhwng y gogledd a'r de a chynyddu cynhwysedd rhwng Wrecsam a Caer. Disgwylir i'r cynllun gael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2015 ac mi fydd yn cadw manteision y cynllun gwreiddiol

Mae'r cynllun hwn, yn ogystal â'n gwaith yn arwain datblygiad achos busnes ar gyfer moderneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd yn y rhanbarth, yn dangos ein ymrwymiad i wella'r seilwaith rheilffyrdd yn y Gogledd.

**Argymhelliad 6:**
**Byddai'n ddefnyddiol cael gwybod pryd y bydd cynllun i ddileu'r dagfa bresennol yn Aston Hill ar yr A494 yn cael ei weithredu.**

Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Ddatganiad Ysgrifenedig ar Drafnidiaeth ar 10 Gorffennaf. Nododd y datganiad hwn y bydd cyllid ar gyfer cam nesaf yr astudiaeth o welliannau i fynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth ar gefnffordd yr A494 yng Nglannau Dyfrdwy. Bydd yr astudiaeth yn cynnwys ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Y cam nesaf yw penodi ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith.

**Argymhelliad 7:**
**A allech nodi sut y bydd cyfleusterau parcio a gorffwys ar gyfer diogelwch gyrrwyr cerbydau nwyddau trwm a phobl eraill sy'n teithio ar hyd yr A55 yn cael eu gwella.**

O ran cyfleusterau gorffwys mwy cyffredinol ar gyfer cael seibiant byr, mae yna amryw o ardaloedd gwasanaeth a chilfannau ar hyd yr A55 a llawer o gyfleusterau yn y cymunedau oddi ar yr A55.

Ar hyn o bryd, mae yna arhosfan i gerbydau nwyddau mawr, a ariannwyd yn rhannol gan grant Llywodraeth Cymru, ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ym mhen dwyreiniol yr A55/A494.

Mae arhosfan i lorïau yn cael ei datblygu ym Mharc Cybi, Caergybi (A55, C2) hefyd. Bydd lle i 168 o gerbydau nwyddau mawr, ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF).

Yn ogystal, mae ceisiadau preifat wedi'u cyflwyno ar gyfer arhosfan i lorïau ger yr A55, C31 (Caerwys) ond, hyd yma, nid yw'r rhain wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol.

**Cwestiwn ychwanegol – Byddem yn falch o gael nodyn pellach sy'n cyflwyno cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd yn yr ardal hon.**

Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ddatganiadau ysgrifenedig ar 10 Gorffennaf a 18 Gorffennaf yn amlinellu blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd ledled Cymru. Mae'r datganiadau ar gael i'w lawrlwytho trwy'r dolenni canlynol:

http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/railpriorities/?lang=cy

http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/transport/?lang=cy

**Argymhelliad 8:**
**Hoffem ichi ddarparu datganiad clir am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod datrysiad cyflym i'r rhwystrau sy'n atal ardaloedd anodd eu cyrraedd rhag cael mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf.**

Fel rhan o raglen Cyflymu Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â BT i sicrhau y gall busnesau a chartrefi y tu allan i'r ôl-troed masnachol arfaethedig yng Nghymru gael mynediad at fand eang ffibr erbyn 2016. O wneud hyn a chyflwyno band eang yn fasnachol, bydd gan 96% o dai a busnesau yng Nghymru fynediad at fand eang ffibr cyflym.

Fodd bynnag, amcangyfrifir bod 4% o ardaloedd yng Nghymru yn anodd eu cyrraedd o hyd, ac ni ddisgwylir y bydd y prosiect hwn yn gallu cynnig gwasanaeth uniongyrchol iddynt. Mae gwaith cynllunio manylach ar y gweill i'n helpu ni i nodi'r ardaloedd hynny nad ydynt yn rhan o'r rhaglen fasnachol na rhaglen Cyflymu Cymru. Cwblheir y broses adolygu erbyn diwedd y flwyddyn hon. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant i barhau i archwilio posibiliadau i helpu i nodi ffyrdd addas a hyblyg o ddarparu gwell mynediad at fand eang i unrhyw eiddo nad yw'n rhan o'r gwaith cyflwyno masnachol neu raglen Cyflymu Cymru.

Yn ogystal, rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Allwedd Band Eang Cymru yn ddiweddar. Bydd Allwedd Band Eang Cymru yn darparu grantiau o hyd at £1,000 i eiddo mewn ardaloedd â chysylltiadau band eang araf. Bydd yn cyd-fynd â rhaglen Cyflymu Cymru trwy ddarparu cymorth mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r rhaglen neu lle nad oes dyddiad wedi'i gyhoeddi ar gyfer cyflwyno band eang cyflym iawn.

**Argymhelliad 9:**
**Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro safbwynt Llywodraeth Cymru o ran ailalinio ei chyllid adfywio a'r goblygiadau i ardaloedd lle y cafodd cyllid ei dynnu'n ôl.**

Ym mis Mawrth 2013, aethom ati i gyhoeddi *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd* a chanllawiau dilynol ar dargedu buddsoddiad. Mae'r dogfennau hyn yn nodi newid sylweddol yn ein hagwedd at adfywio yng Nghymru.

Ym mis Mai, cafodd pob awdurdod lleol wahoddiad i gyflwyno Rhaglenni Amlinellol Strategol (SOPs), ar ran partneriaethau lleol sy'n cynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ar gyfer cynlluniau adfywio er mwyn ceisio cael cyfran o hyd at £90 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru dros y tair blynedd ariannol nesaf. Mae'r broses hon ar waith a bydd y

Gweinidog Tai ac Adfywio yn cyhoeddi'n ffurfiol pa aneddiadau fydd yn derbyn cyllid ym mis Ionawr 2014.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud hi'n glir y bydd yn cyflawni'r ymrwymiadau a wnaeth i'r Ardaloedd Adfywio presennol. Ar ôl hynny, bydd angen i fuddsoddiad ar gyfer llefydd o fewn yr ardaloedd hynny fod yn llwyddiannus yng nghylch ceisiadau *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid* – mae rhai eisoes wedi methu â chyrraedd yr ail gam. Er bod hyn yn siom iddynt, mae'n bwysig cofio bod yr ardaloedd hyn eisoes wedi elwa ar fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys;

- Arfordir Gogledd Cymru — £30 miliwn (gan gynnwys £10 miliwn ar gyfer Gorllewin y Rhyl)
- Môn a Menai — £33 miliwn

Rydym hefyd yn benderfynol na ddylai'r ardaloedd mwyaf difreintiedig gael eu gadael ar ôl. Felly bydd cronfa o £5 miliwn wedi'i neilltuo ar gael dros y tair blynedd nesaf i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol a fydd yn ceisio trechu tlodi mewn ardaloedd nad ydynt wedi bod yn llwyddiannus yng Ngham 1 ond sy'n cynnwys wardiau ymhlith y deg y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn ôl mesuriad 2011. Bydd ardaloedd adfywio aflwyddiannus yn gymwys i gael y cyllid hwn os na fyddant yn derbyn unrhyw gyllid arall trwy *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid*.

Yn y dyfodol, bydd pob ardal Awdurdod Lleol yn cael cymorth pwrpasol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Adfywio o ran datblygu cynigion a gweithredu fel cyfrwng ar gyfer pob un o feysydd Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 10:**
**Hoffem wybod a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd, a phryd y bydd yn gwneud hynny.**

Nid ydym yn bwriadu adolygu TAN15 ar hyn o bryd.

Mae pobl wedi galw am adolygiad o TAN15 sawl gwaith yn y gorffennol, ond mae tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (hen Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) yn dangos bod y polisi'n gweithio. Fodd bynnag, fel sy'n wir wrth gyflwyno unrhyw bolisi, bydd yna gyfnod pontio. O ganlyniad, rydym wedi gweld rhai achosion o geisiadau datblygu'n cael eu cymeradwyo cyn i'r polisi gael ei gyflwyno, ond yn cael eu hadeiladu ar ôl hynny.

Yn ôl tystiolaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn ei Hadroddiadau HLT13, roedd yna anghysondeb yn y ffordd yr oedd Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) yn dilyn y cyngor yn TAN15. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, yn 2012


aethom ati i gyflwyno Cyfarwyddyd Hysbysu newydd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ACLlau roi gwybod i Lywodraeth Cymru os ydynt yn bwriadu cymeradwyo datblygiad sy'n groes i TAN15.

**Cwestiwn ychwanegol – beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo gwaith i ddatblygu biodanwyddau yng ngogledd Cymru?**

Mae biomas, fel ynni niwclear, yn cynnig y gallu i gydbwyso natur ysbeidiol ffynonellau ynni adnewyddadwy megis gwynt ac ynni'r haul. Mae'n hollbwysig sicrhau bod biomas yn dod o ffynonellau cynaliadwy ac nad yw safonau ansawdd aer yn gostwng o ganlyniad i ddefnyddio biomas i gynhyrchu ynni.

**Atodiad 1**

Mae ffigur 1 isod yn dangos sut mae cynlluniau a strategaethau Llywodraeth Cymru yn gweithio'n gydlynol ac yn effeithiol ledled Cymru ac ar draws portffolios Gweinidogion, gyda pholisïau strategol fel cyfres o hidlyddion sy'n llywio prosiectau a rhaglenni gwario Llywodraeth Cymru.




**Ffigur 1: Y cysylltiad rhwng Polisi, Rhaglenni a Phrosiectau**

**Rhaglen Lywodraethu – Gweinidogion**

**e.e. Cynllun Gofodol Cymru, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Polisi Cynllunio Cymru – Polisïau Strategol Cenedlaethol**

**e.e. Rhaglen Adnewyddu'r Economi, Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol – Rhaglenni Sectoraidd Cenedlaethol**

**e.e. Cymru Ddigidol, Blaenraglen Cefnffyrdd, Ardaloedd Menter – Is-raglenni**

**e.e. Gwella'r A55, Cyflymu Cymru - Prosiectau**